Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor
Gwynedd, LL57 2TU
Ffôn/Tel: 01248 352633
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk

Awst 2020

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Taliadau ar-lein

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu ein bod yn derbyn taliadau am yr holl wasanaethau a gynigir gan yr ysgol, gan gynnwys teithiau ysgol, gwersi offerynnol, gweithgareddau amrywiol a chinio ysgol ar-lein yn unig. Nid yw'r ysgol bellach yn derbyn unrhyw arian parod / sieciau.

Gofynnwn i rieni ddilyn y camau isod er mwyn eich galluogi i wneud taliadau ar-lein.

1. Agor cyfrif ar wefan Cyngor Gwynedd drwy ddilyn www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif

2. Agor cyfrif Schoolgateway – gweler yr atodiad 'Canllawiau Talu Ysgol Tryfan' am arweiniad.

3. Rhoi caniatad i'ch plentyn gofrestru ar System Arlwyo Ddi-arian yr ysgol (system biometrig) – gweler yr atodiad 'Gwybodaeth i Rieni - Biometrig' am wybodaeth bellach ar y system. Bydd angen i chi nodi eich caniatad ar y ffurflen yma:
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5kyoDOLBZVJJHkPSm3JJLis1URTBXTkxJOUFVRFo3Qlg1WllQM0k4SE1TTi4u
Byddwn yn cofrestru'r disgyblion ar y system ddi-arian yn ystod y bore dydd Iau (03/09/20), felly rhaid sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen ganiatad erbyn hynny, neu ni fydd modd cofrestu'ch plentyn.

4. Bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi rhoi arian yng nghyfrif cinio eich plentyn erbyn dechrau'r tymor 'Cinio Ysgol 2020/21' – o bosib bydd yn rhaid aros tan 01.09.20 i ychwanegu arian cinio am mai dyna'r dyddiad bydd eich plentyn yn swyddogol ar lyfrau'r ysgol. Gellir talu unrhyw swm o arian i gyfrif cinio disgybl, a bydd unrhyw arian a warir ar fwyd a diod yn cael ei ddidynnu pob diwrnod. Bydd uchafswm gwariant dyddiol o £5.00 yn cael ei raglennu i'r system. Gellir cynyddu neu ostwng hwn ar gyfer pob disgybl unigol trwy wneud cais ysgrifenedig i swyddfa'r ysgol.

Cofiwch gysylltu â'r ysgol os am unrhyw gymorth / wybodaeth bellach am yr uchod (01248 352633 / swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk)

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Mr Arwyn Williams
Pennaeth